


Strategaeth Gyfranogi i Blant a Phobl Ifanc 2015-2018


Ymgysylltu'n Effeithiol
ym mhenderfyniadau'r
Awdurdod Lleol



EICH DEWIS CHI, SIARADWCH GYDA NI!



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru



If you require this information in large print, Braille or on audiotape, please telephone 01267 24567

100% recycled

This publication is printed on 100% recycled paper



recycle ailgylchu

Please recycle this publication
Cofiwch ailgylchu'r cyhoeddiad yma

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru

RHAGAIR



Rydym am ymgorffori cyfranogi ym mhob rhan o'r Cyngor Sir, trwy ymgysylltu'n gadarnhaol â phlant a phobl ifanc, a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod sut i gyfrannu i'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a'u dyfodol.

Byddwn yn darparu ac yn datblygu cyfleoedd a mentrau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae ein llwyddiant yn ddibynnol ar alluogi plant a phobl ifanc i chwarae rhan ystyrlon. Ystyr hyn yw y byddwn yn gwrandao ar eu safbwyntiau, eu pryderon a'u barn wrth lunio a darparu pob gwasanaeth a ddefnyddiant, yn sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer eu hanghenion ac yn gwella ein ffordd o weithio.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod plant a phobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn. Trwy eu cyfraniad tymor hir rydym yn gobeithio y bydd plant a phobl ifanc wrth wraidd ein gwaith i gynllunio a llunio'n gwasanaethau. Os na fyddwn yn cyflawni'r ymrwymiad hwn cofiwch roi gwybod i ni fel y gallwn ni ei wneud yn iawn.

EIN GWELEDIGAETH

Ein nod dros y tair blynedd nesaf
yw ymgorffori cyfranogi yn y
Cyngor, er mwyn i blant a phobl
ifanc deimlo bod llais ganddynt
ac y gallant ddylanwadu ar
benderfyniadau sy'n effeithio ar
eu bywydau o ddydd i ddydd.



YSTYR CYFRANOGI


Un o hawliau sylfaenol pob plentyn a pherson ifanc yw cael cyfranogi yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Dywed Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod gan blant a phobl ifanc

"yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried"
(Yn ôl Erthygl 12 o'r Confensiwn)

Ystyr cyfranogi felly yw rhoi cyfle i blant a phobl ifanc leisio eu barn a chael cymorth i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Rydym wedi ymrwmo i hyrwyddo Erthygl 12 a sicrhau bod cyfle i bob plentyn a pherson ifanc yn Sir Gaerfyrddin gyfrannu a lleisio barn.

DYWED CYNGOR IEUENCTID SIR GAERFYRDDIN MAI YSTYR CYFRANOGIAD YW:




"bod y bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn gofyn barn ac yn ystyried barn a safbwyntiau plant a phobl ifanc, ac yn gwneud newidiadau cadarnhaol ar faterion sy'n effeithio ar ein bywydau" Mawrth 2015

LEFELAU CYFRANOGIAD

Mae'r ysgol gyfranogi yn syniad a ddatblygwyd gan Roger Hart (1992) ac mae'n nodi wyth lefel o gyfranogiad gan blant a phobl ifanc. Cafodd ei llunio i ddangos y graddau y gall plant a phobl ifanc gyfranogi â sefydliadau. Ystyrir bod y tair haen waelod yn enghreifftiau o ddiffyg cyfleoedd i gyfranogi.

Non-Participation



PAM CAEL STRATEGAETH?

Mae'r strategaeth hon yn helpu pobl ifanc a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall pwysigrwydd cyfranogiad ystyrllon a beth y gallwn gyflawni.

Mae'r strategaeth hon a'r Cynllun Gweithredu sy'n ei chefnogi yn adeiladu ar y gwaith da sydd wedi'i gwneud ac yn disgrifio ein hymrwymiad a'n blaenoriaethau o ran cynnwys plant a phobl ifanc yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae'n rhaid i ni gynnwys plant a phobl ifanc er mwyn deall eu hanghenion. Heb gwneud hynny, mae'n amhosibl creu a darparu gwasanaethau effeithiol sy'n ateb eu hanghenion.



CYFRANOGI: BETH MAE HYN YN EI GYNNIG I MI?

AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

Gall cyfranogi wneud y canlynol:

- Rhoi rôl i blant a phobl ifanc mewn sefydliad neu wasanaeth er mwyn iddynt gael gwrandawriad, ystyriaeth ddifrifol i'w barn, a chael eu gwerthfawrogi a'u parchu .
- Gwneud newidiadau ar ein cyfer ni ac ar gyfer pobl ifanc eraill drwy herio'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn gyfrifol.
- Datblygu a gwella ein sgiliau a'n gwybodaeth, a rhoi cyfle ar yr un pryd i gael gwobrau ac achrediad.
- Meithrin hyder, hunan-barch a dyheadau a chael gwell ansawdd bywyd yn sgil hynny.
- Chwarae rhan weithredol yn y gymuned a deall sut y gallwn gwneud gwahaniaeth trwy ddeall systemau a phrosesau.
- Caniatáu inni ymfalchïo yn ein cyflawniadau.



AR GYFER SEFYDLIADAU A GWASANAETHAU

Gall annog a chefnogi cyfranogiad wneud y canlynol:

- Cynllunio, creu a llunio gwasanaethau o ansawdd gwell sy'n darparu ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc.
- Helpu i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n well ac yn fwy effeithlon.
- Gwella presenoldeb, cyrhaeddiad ac ymddygiad.
- Helpu i wella ansawdd bywyd plant a phobl ifanc gan fod gwasanaethau yn nodi eu hanghenion, yn eu deall ac yn ymateb iddynt.
- Cynnig persbectif newydd a dylanwadu ar ddeilliannau er mwyn gwella sefydliadau a gwasanaethau



Mae ymgysylltu ystyrllon a chynaliadwy â phlant a phobl ifanc yn galw am ymrwymiad gan blant a phobl ifanc, y sefydliad cyfan a'r gymuned.

AR GYFER Y GYMUNED

Gall annog a chefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau wneud y canlynol:

- Hyrwyddo perchenogaeth a dinasyddiaeth weithredol sy'n gwneud i blant a phobl ifanc deimlo bod eraill yn eu gwerthfawrogi ac yn eu parchu.
- Gwella ansawdd bywyd plant a phobl ifanc yn y gymuned.
- Gwneud gwell defnydd o adnoddau
- Hyrwyddo gweithio gydag eraill a gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol
- Helpu i ddileu stereoteipiau negyddol o ran pobl ifanc
- Bydd oedolion sy'n gwneud penderfyniadau yn gwybod beth mae pobl ifanc eisiau a beth sydd ei angen arnynt.



Y SAFONAU CYFRANOGIAD CENEDLAETHOL

Yng Nghymru mae 7 Safon
Genedlaethol y dylai
sefydliadau sy'n gweithio gyda
phlant a phobl ifanc geisio'u
bodloni er mwyn i blant a phobl
ifanc gael profiad cyfranogi da.
(gweler y poster yn yr atodiad)

Y Saith Safon
genedlaethol yw:



GWYBODAETH -

sy'n hawdd i blant a phobl ifanc ei deall

DY DDEWIS DI -

digon o wybodaeth ac amser i wneud dewis cytbwys

DIM GWAHANIAETHU -

yr un cyfle i blant a phobl ifanc gael cyfranogi

PARCH -

Byddwn yn cymryd dy farn o ddifrif

BYDDI DI AR DY ENNILL -

Byddi'n mwynhau'r profiad


ADBORTH -

Byddi di'n gweld pa wahaniaeth mae dy farn wedi'i wneud


GWELLA'R FFORDD RYDYM YN GWEITHIO -

bydd oedolion yn gofyn i chi sut y gallant wella'r ffordd y maent yn
gweithio yn y dyfodol

EIN BLAENORIAETHAU



1. Bod yn Gyngor Sir sy'n ymgorffori diwylliant cyfranogi sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â phlant a phobl ifanc ac yn rhoi ystyriaeth i'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud.
2. Cael plant a phobl ifanc i gyfrannu o ran llywio gwaith y Cyngor Sir (pan fydd polisi newydd yn cael ei gynnig a phan fydd unrhyw adolygiad neu newid yn digwydd i bolisiâu, strategaethau a gwasanaethau presennol a allai effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin)
3. Creu diwylliant cyfranogi sy'n parchu, amddiffyn, gwerthfawrogi a chefnogi plant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin.
4. Bod yn fwy ymwybodol o anghenion plant a phobl ifanc a darparu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion yn briodol.
5. Galluogi plant a phobl ifanc i fynegi'r materion sy'n bwysig iddynt trwy grwpiau cynrychioliadol cydnabyddedig yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
6. Sicrhau bod gwahanol ffyrdd i blant a phobl ifanc leisio'u barn a'u safbwyntiau er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
7. Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd ystyrion i ddylanwadu ar waith ysgol, addysg a bywyd ysgol.
8. Cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfranogiad ystyrion a Hawliau Plant
9. Sicrhau bod staff Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cyfathrebu a gweithio'n gadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod ansawdd gwasanaethau yn well a'u bod yn fwy effeithlon ac yn fwy hygyrch.
10. Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod sut i gyflwyno sylwadau, awgrymiadau a chwynion am y gwasanaethau a ddefnyddiant.



CREU CYFLEOEDD

- **EIN GWELEDIGAETH** – sy'n dangos pa mor bwysig yw gwranddo ar blant a phobl ifanc i ni
- **YMGORFFORI DIWYLLIANT** - sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi cyfranogiad plant a phobl ifanc
- **GWELLA EIN Ffordd O WEITHIO** - trwy wella'r ffordd rydym yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gefnogi eu cyfranogiad unigol ac fel grŵp a chyflawni newidiadau cadarnhaol
- **ADOLYGU CYNNYDD** - gwerthuso effaith cyfranogiad plant a plant a phobl ifanc ar y penderfyniadau a wnawn a'r canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc

SUT BYDDWN NI'N GWYBOD BETH SYDD WEDI NEWID?

- Byddwn yn monitro'n Cynllun Gweithredu yn ofalus yn ystod y flwyddyn i sicrhau ein bod ar y trywydd iawn.
- Byddwn yn llunio Adroddiad Blynyddol a fydd yn nodi'r camau a gymerwyd o ran y Cynllun Gweithredu, yn ei ddiweddarau os bydd angen, ac yn rhoi adroddiad ar y gweithgareddau a wnaed a'r effaith a gawsant.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r cynnydd (bydd y monitro nesaf yn digwydd yn 2016) ac yn penderfynu a ydym ni'n gwneud yn dda neu beidio

Cael Llais - Cael Dewis

Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau?

* Mae 'Ni' yn golygu unrhyw un sy'n gofyn i blant a phobl ifanc gyfranogi. Mae gennydh 'Chi' yr hawl i ddisgwyl y safonau hyn.

"Ystyr cyfranogiad yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis"



GWYBODAETH



Ystyr hyn yw:

- Gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei deall
- Oedolion yn gweithio gyda chi sy'n gwybod beth sy'n digwydd ac sy'n agored ac yn glir.

Byddwn yn:

- Sicrhau bod pawb yn cael digon o wybodaeth i gymyd rhan yn iawn
- Dweud wrthyh chi sut y bydd y ffaith eich bod chi'n cymyd rhan yn gwneud gwahaniaeth
- Dweud wrthyh chi pwy sy'n mynd i wrando a newid pethau.

Ystyr hyn yw:

- Mai chi sy'n dewis ydych chi am gymyd rhan neu beidio
- Mai chi sy'n cael dewis gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi
- Mai chi sy'n dewis beth rydych chi'n ei wneud a sut.

Byddwn yn:

- Rhoi digon o wybodaeth ac amser i chi benderfynu ydy hyn yn rhywbeth yr ydych chi eisiau ei wneud ai peidio.

EICH DEWIS CHI



DIM GWAHANIAETHU



Ystyr hyn yw:

- Bod plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ond bod gan bob un ohonoch yr un hawl i gael dweud eich dweud am faterion sy'n bwysig i chi.
- Rydym eisiau i bawb deimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn gallu cymyd rhan os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Byddwn yn:

- herio unrhyw wahaniaethu
- cysylltu â phlant a phobl ifanc mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd
- eich cael chi i gymyd rhan yn y pethau rydych chi am gymyd rhan ynddyn nhw.

Ystyr hyn yw:

- Bod gan bawb gyfle i dâweud eu dweud, bod eich barn yn bwysig ac y byddwn yn ei pharchu.

Byddwn yn:

- gwranddo ar eich syniadau, eich safbwyntiau a'ch profiadau
- eich cymyd chi o ddiffri ac yn eich trin chi'n deg
- gweithio gyda chi i wneud rhywbeth am y materion sy'n bwysig i chi
- gweithio gyda chi i'ch helpu i newid pethau er gwell.

PARCH



BYDDWCH CHI AR EICH ENNILL HEFYD



Ystyr hyn yw:

- Ein bod ni am i chi fwynhau ac elwa o gymyd rhan
- Ein bod yn gwybod bod gennyh bethau eraill i'w gwneud yn eich bywyddau hefyd!
- Sicrhau bod cymyd rhan yn brofiad cadarnhaol, nid yn un negyddol.

Byddwn yn:

- gweithio mewn ffyrdd diogel, plaserus, llawn hwyl
- gwneud yn fawr o'r yr hyn rydych yn ei wybod
- gwneud pethau cadarnhaol sy'n meithrin eich hyder
- cwrdd mewn llefydd cyfeillgar sy'n hwylus i bobl ifanc
- gwerthfawrogi ac yn parhau'r hyn sydd gennyh i'w gynniig.

Ystyr hyn yw:

- Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwybod pa wahaniaeth rydych wedi'i wneud a sut y mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio.

Byddwn yn:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am beth sy'n digwydd
- rhoi adborth i chi cyn gynted ag sy'n bosib a hynny mewn ffordd hawdd ei deall.

ADBORTH



GWELLA EIN FFORDD O WEITHIO



Ystyr hyn yw:

- Ein bod ni eisiau dysgu a gwella ein ffordd o weithio gyda chi.

Byddwn yn:

- edrych ar ein ffordd o weithio gyda chi a sut mae gwella ar hynny

- gofyn i chi beth sydd wedi mynd yn dda a beth sydd angen ei newid
- sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i sut y byddwn ni'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau.

